

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynigion ar gyfer Ardal Gadwraeth

Maenorbŷr



Canllawiau Cynllunio Atodol
i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd 12 Hydref 2011



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

**Pembrokeshire Coast
National Park**

CYNNIGION AR GYFER ARDAL GADWRAETH MAENORBŶR

CYNNWYS

RHIF Y DUDALEN

RHAGAIR	3
1. Cyflwyniad	5
2. Crynodeb o'r Datganiad o Gymeriad	7
3. Dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau	13
4. Dadansoddiad o'r Diben, Amcanion, Strategaeth a Themâu.	18
5. Adnoddau	21
6. Tir y Cyhoedd	23
7. Rheoli Traffig	25
8. Prosiectau Cymunedol	26
9. Ymwybyddiaeth.	27
10. Datblygiad	28
11. Rheolaeth	29
12. Astudiaeth ac Ymchwil	30
13. Ffiniau	31
14. Y Camau Nesaf	33
15. Rhaglen/Cynllun Gweithredu	34
16. Talfyriadau a Ddefnyddiwyd	35

Atodod A: Allwedd i Fap Nodweddion Ardal Gadwraeth Maenorbŷr

Hydref 2011

PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO



Ardal Gadwraeth Maenorbyr

RHAGAIR

Dyma fwriad y ddogfen hon:

Yn Adran 1, cyflwyno dibenion a chefnidir cyfreithiol a threfniadol y Ddogfen Gynigion a'r Datganiad o Gymeriad.

Mae Adran 2 yn grynodeb o gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Mae Adran 3 yn grynodeb o'r prif faterion dan sylw, ar ffurf dadansoddiad o Gryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau, a gwblhawyd gan y gweithgor, gan danlinellu Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau Maenorbŷr.

Mae Adran 4 yn nodi'r egwyddorion gwarchod a gwella sylfaenol trwy gyfrwng dadansoddiad o'r Diben, Amcanion, Strategaeth a Themâu sy'n gosod ymagwedd gydlynol wedi'i strwythuro at warchod a gwella cymeriad Maenorbŷr mewn hierarchaeth glir, o'r athroniaethau sylfaenol i fanylion gweithredu.


Mae Adrannau 5 i 12 (gan gynnwys Adran 5 ac Adran 12) yn datblygu amrywiaeth o gynigion integredig sy'n anelu at roi sylw i'r materion a godwyd yn y dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd yn y dadansoddiad o ddiben, amcanion, strategaeth a themâu.

Mae Adran 13 yn ystyried materion yn ymwneud â ffiniau.

Mae Adrannau 14 a 15 yn archwilio'r ardaloedd pellennig a throsglwyddiad.

ARDAL GADWRAETH Maenorbyr

FFIN YR ARDAL GADWRAETH
Nid ydyw i raddfa
Dynodwyd 1997



1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynwyd Ardaloedd Cadwraeth wedi dod yn fwy a mwy ymwybodol o'r ffaith y gallai ardaloedd cyfan, yn ogystal ag adeiladau, coed a nodweddion unigol, fod o ddiddordeb ac o werth. Cynigiwyd Ardaloedd Cadwraeth am y tro cyntaf o dan Ddeddf Amwynderau Dinesig 1967 ac erbyn hyn maen nhw'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cynllunio, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990. O dan Ddeddf 1990 mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi Ardaloedd Cadwraeth, (Adran 69.2) sy'n "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol gwarchod neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad", (Adran 69.1).
- 1.2 Dynodwyd craidd hanesyddol Maenorbŷr yn Ardal Gadwraeth yn 1998.
- 1.3 Unwaith y cânt eu dynodi, mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu Cynigion ffurfiol i warchod a gwella Ardaloedd Cadwraeth. (Adran 71).
- 1.4 Fe wnaeth APCAP y gwaith hwn mewn dau gam gwahanol, y naill a'r llall yn golygu ymgynghori'n helaeth â'r gymuned:
 - i) Paratoi datganiad o'r cymeriad presennol – Yn 2002 drafftwyd Datganiad o Gymeriad gan weithgor a enwebwyd gan Gyngor Cymuned Maenorbŷr ynghyd â Swyddogion o APCAP (Atodiad C). Yn dilyn ymgynghoriadau helaeth, arddangosfa gyhoeddus, a chymeradwyaeth y Cyngor Cymuned, cymeradwywyd Datganiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Maenorbŷr yn ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli Datblygiad y Parc Cenedlaethol yn eu cyfarfod ar 12 Medi 2001 (Dylid darllen yr adroddiad hwn mewn cysylltiad â Datganiad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Maenorbŷr a cheir crynodeb o'r Datganiad o Gymeriad yn adran 2.0).
 - ii) Roedd ail gam y gwaith yn golygu paratoi Dogfen Gynigion yn nodi sut mae modd gwarchod a gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Paratowyd Dogfen Gynigion ddrafft gan y gweithgor ac roedd yn rhan o arddangosfa gyhoeddus leol. Yn ystod yr arddangosfa, gwahoddwyd sylwadau ac awgrymiadau ar y ddogfen. Dosbarthwyd y ddogfen ddrafft yn eang, ac roedd yna wahoddiad i amrywiaeth o bartneriaid a oedd â diddordeb anfon eu sylwadau.
- 1.5 Wedi derbyn sylwadau, fe gafodd y drafft, a'r crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law, ystyriaeth gan Gyngor Cymuned Maenorbŷr, ac yna fe'i cymeradwywyd gan APCAP yn eu cyfarfod ar 16 Chwefror 2005.
- 1.6 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi mabwysiadu'r Ddogfen Gynigion fel Canllaw Cynllunio Atodol i Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) APCAP. Fe fydd y Datganiad yn gosod y cyd-destun ar gyfer ystyried effaith cynigion i ddatblygu ar gymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Fe fydd y Ddogfen Gynigion yn cefnogi polisiâu'r CDU ac fe fydd yn ystyriaeth gynllunio bwysig wrth benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth Maenorbŷr. Maenorbŷr yn cael eu hadnabod fel Canolfan Wledig ac mae Polisi 6 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi blaenoriaethau ar gyfer defnydd tir.
- 1.7 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio nodi cynigion i ddangos sut mae modd gwarchod a gwella cymeriad Ardal Gadwraeth Maenorbŷr.





Maenorbŷr
Ardal Gadwraeth
Dynodwyd 1997


Allwedd

- Ffin yr Ardal Gadwraeth
- Adaelid Rhesreidiol
- Heneb Gofrestrail
- Safle o Ddi-ddordeb Gwyddonol Arbennig
- Ardal Gadwraeth Arbennig
- Hawl Tramwr, Cymoedus/Lwybr yr Arfordir

Graddfa



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro



2 CRYNODEB O GYMERIAD

Dylid darllen y crynodeb hwn law yn llaw gyda Datganiad Ardal Gadwraeth Maenorbŷr (Medi 2001). Mae'r Awdurdod hefyd wedi mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Aseidiadau Cymeriad Tirlun (Mehefin 2011). Mae Ardal Cadwraeth Maenorbŷr o fewn LCA 4 'Maenorbŷr /Freshwater East'.

2.1 MAE CYMERIAD ARDAL GADWRAETH MAENORBŷR YN BWYSIG:

- i ansawdd bywyd lleol
- fel atyniad i ymwelwyr
- fel tystiolaeth gyffyrddadwy o etifeddiaeth hanesyddol a phensaernïol gyfoethog
- i sicrhau hyfywedd a bywiogrwydd ei chanolfan hanesyddol
- wrth ddatblygu synnwyr o berchnogaeth, balchder dinesig a hunaniaeth
- wrth annog dyfodol cynaliadwy sy'n cynnwys hyrwyddo sgiliau a chynnyrch lleol
- wrth integreiddio'r celfyddydau, treftadaeth, diwydiannau lleol a dylunio da
- wrth hyrwyddo marchnata a thwristiaeth ddiwylliannol
- fel amwynder ac ased ar lefel rhyngwladol a chenedlaethol




2.2 TARDDIAD A DATBLYGIAD

- Mae anheddiad Maenorbŷr yn dyddio o'r cyfnod Cristnogol cynnar, ac mae yna doreth o olion o gynhanes yn yr ardal. Mae'n ymddangos hefyd fod yma boblogaeth ddwys yn yr oes Neolithig. Roedd yr anheddiad yn bwysig yn hanes y Celtiaid, ac mae yna gysylltiad gyda Phŷr, offeiriad lleol o'r 7G



- Ceir y cyfeiriad cyntaf at y castell yn 1146, ac fe'i hailadeiladwyd yn helaeth drwy'r 13G, gyda'r pyllau pysgod, y parc ceirw a pherllannau. Daw'r wybodaeth hon o ddisgrifiad o'r cyfnod gan Gerallt Gymro, a anwyd ym Maenorbŷr



- Yn hwyr yn y 12G, fe ysgrifennodd Gerallt Gymro'n huawdl am leoliad ei eni (gweler y Datganiad o Gymeriad 4.21- "*Yno saif y tŷ, yn amlwg o bellteroedd yn ôl ei dyredau a'i renelliadau, ar gopa bryn sydd yn ddigon agos i'r môr ac sydd, ar yr ochr orllewinol yn ymestyn cyhyd â'r harbwr. I'r gogledd a'r gogledd-orllewin, ychydig islaw'r waliau, mae yna bwll pysgod rhagorol, wedi'i adeiladu'n dda, sy'n nodedig oherwydd ei ddyfroedd dyfnion. Ar yr un ochr, mae yna berllan digon deniadol, ynghau rhwng y pwll pysgod a gelli o goed, gyda chlogwyn mawr o graig a choed cyll sy'n tyfu cryn uchder.*"



- Dechreuwyd eglwys garreg yn y 12G, a dywedir iddi sefyll ar safle cynharach. Fe'i hymestynnwyd yn helaeth o'r 13G i'r 15G ac ar ôl hynny fe'i rhoddwyd i Briordy Monkton
- Tyfodd anheddiad yn ystod y cyfnod Normanaidd, fel y gwelir o'r llain-gaeau helaeth sydd wedi goroesi ger y pentref
- Yn y 19G hwyrach, ailadeiladwyd y pentref yn helaeth, ac yntau'n gyrchfan lan môr ffasiynol, ac mae llawer o'r adeiladau'n dyddio o'r cyfnod hwn.
- Mae'n amlwg fod Maenorbŷr wedi cynnig cynefin i gartrefu pobl ers y cyfnod cynharaf ac mae yma rinweddau deniadol sydd wedi goroesi hyd heddiw.



2.3 CYD-DESTUN FFISEGOL, DYFODFEYDD A GOLYGFYDD

Mae'r pentref ar ddiwedd dyffryn arfordirol sydd â golygfeydd gwych o'r arfordir, ac ar yr ochr ogleddol mae yna gastell, ac eglwys i'r de. Saif y pentref o amgylch tro llym yn y B4585 ar gyffordd gyda dwy heol lai. Mae'r B4585 yn dod i mewn i Faenorbŷr ar ddolen oddi ar heol yr A4319 o Ddinbych-y-pysgod i Benfro, ac mae'r pentref yr un pellter o'r ddwy dref (6 milltir o'r naill a'r llall). Nid ydyw'n eistedd ar lwybr at unrhyw le arall, ac felly mae'n lle diogel i drigolion a thwristiaid. O'r ddyfodfa gysgodol i'r traeth o'r pentref mae yna olygfeydd sy'n agor allan yn ddramatig wrth nesáu at y môr ac maen nhw'n gwahodd rhywun i archwilio'r morlin ymhellach. Mae patrymau'r llanw'n cyfuno gyda'r nant sy'n llifo'n wastadol i greu darlun o draeth sy'n newid drwy'r amser, yn dywod, cerrig mân, môr a nant. I ffwrdd oddi wrth yr agwedd arfordirol, mae'r pentref wedi'i osod yn helaeth ymhlith coed. Mae yna nifer o ddyfodfeydd pwysig wedi eu nodi yn y Datganiad o Gymeriad, yn ogystal ag amrywiaeth dda o olygfeydd, tua'r tir a thua'r môr.




2.4 Y PENTREFLUN

Arwyddocâd Archeolegol a'r Potensial

- Mae'r olion pwysig o gynhanes yn cynnwys: Siambr Gladdu Neolithig Y Gromlech, castell neu eglwys (o bosib yn safleoedd o gyfnod cyn-canoloesol) o fewn yr Ardal Gadwraeth. Olion helaeth o gynhanes yn yr ardal o amgylch.
- Olion adeiledig helaeth o'r cyfnod canoloesol gan

gynnwys castell, eglwys, Church Hill, Shute Cottage, colomendy a melin

- Nodweddion a sylfeini canoloesol helaeth yn cynnwys pyllau pysgod, llain-gaeau a pharc ceirw.



Cymeriad Pensaernïol a Hanesyddol yr Adeiladau

- Mae'r adeiladau 'eiconig' sy'n dominyddu'r ardal yn cynnwys castell, eglwys a cholomendy
- Mae mwyafrif yr adeiladau'n edrych fel rhai o'r 19G, rhai gyda chreiddiau cynharach (Church Hill, Shute Cottage)
- Mwyafrif yr adeiladau diweddarach yn edrych yn syml, ac eithrio neuadd y pentref sydd yng nghanol y pentref
- Waliau cwrtil amlwg o garreg galch, rhai yn amgylchynu gerddi mawr



Defnyddiau Adeiladu Cyffredin a Thraddodiadol

- Mwyafrif yr adeiladau o rwbel calchfaen lleol
- Mwyafrif yr adeiladau â gorffeniad stwco llyfn neu blastr garw
- Ffenestri yn draddodiadol yn ffenestri codi o bren sy'n llithro'n fertigol gyda gorffeniad wedi'i beintio; drysau wedi'u peintio, naill ai â phaneli neu fyrddau.
- Yn gyffredinol, y toeon o lechi naturiol.



Manylion Lleol Nodweddiadol

- Mwyafrif y tai o gymeriad 'glan môr' syml; rhai eithriadau, yn enwedig y Neuadd Bentref Gelf a Chrefft goeth



- Waliau: carreg galch agored ar adeiladau canoloesol a rhai adeiladau hwyrach. Mwyafrif yr adeiladau wedi'u rendro'n llyfn (yn aml yn sgrifello) neu â phlastr garw. Waliau gardd blaenllaw o rwbel gyda chopinau amrywiol



- Toeon: yn draddodiadol o lechi Gogledd Cymru gyda bondo plaen a manylion ar yr ymylon, heblaw am yr estyll tywydd addurniadol Fictoriaidd hwyrach (e.e. Glyder). Gogwydd, yn gyffredinol, o 40 gradd gyda theils ymylol glas/du; simneiau o friciau, carreg neu rendr
- Drysau/ffenestri: yn draddodiadol yn ffenestri codi wedi'u peintio sy'n llithro'n fertigol, 12 neu 4 panel; rhai ffenestri crwn. Drysau pren wedi'u peintio, panelau neu fyrddau.



Cymeriad a Pherthynas Gofodau o fewn yr Ardal

- Canol y pentref ag elfen gref o heolydd yn ymdroelli'n dynn rhwng waliau calchfaen gan ddilyn cyfuchlinau safle bryniog. Ymdeimlad caeedig cryf er gwaethaf bodolaeth rhai gerddi mawr a phadogau bach. Gosodiad mwy dwys yng nghraidd y pentref o amgylch neuadd y pentref.



- Mewn cyferbyniaeth â'r uchod, mae'r castell a'r eglwys wedi eu gosod ar lethrau dyffryn y pentiroedd arfordirol: llethrau'r dyffryn wedi eu gorchuddio â phrysgwydd gyda thraeth tywodlyd braf: tir fferm ar y cyrion. Mae llwybr yr arfordir yn rhedeg trwy'r traeth



gyda rhwydwaith o lwybrau eraill yn cysylltu at y pentrefi o amgylch.

Strydlun

- Heolydd o orffeniad tarmacadam safonol
- Goleuo iwtilitaraidd modern
- Polion a cheblau uwchben yn ymwthiol, yn enwedig yng nghraidd y pentref.

Gofodau Agored Pwysig

Mae gofodau agored pwysig yn cynnwys:

- Traeth Maenorbŷr a'r pentir bob ochr gan gynnwys maes parcio a llethrau o brysgwydd i'r de.
- Gosodiad Castell Maenorbŷr, melin, pyllau pysgod a cholomendy.
- Gosodiad Park Farm gan gynnwys olyn galch.
- Gosodiad Eglwys Sant Iago gan gynnwys mynwent ganoloesol, mynwent newydd, Shute cottage, padog i'r de o Castle Mead, gardd Castle Mead ac olion Old Rectory. Y cae i'r dwyrain o gyffiniau'r Castell
- Tir i'r gorllewin o Pembroke Road. Porfa i'r gorllewin o Awelon a'r padog i'r gorllewin o Long Park
- Dolydd i'r gorllewin o Morfa Terrace
- Ymyl yr heol i'r dwyrain o Warlow's Cottage
- Gerddi Balmaha a Devonian
- Ardal Hamdden
- Ardal lawntiog ar hyd y dreif i Tarr Farm
- Gardd Goffa
- Ymyl yr heol a'r clawdd ar dro'r heol



Coed

Mae coed yn elfen flaenllaw ar draws yr Ardal Gadwraeth, ac eithrio yn yr ardaloedd agored o

amgylch neuadd y pentref a Pembroke Road, yn bennaf ar ffurf sycamorwydd a ffawydd. Mae yna enghreifftiau aeddfed arbennig o dda o fewn ardaloedd Morfa Terrace, Glan-y-mor a Fernley Lodge, ac mae yna lôn o goed sycamorwydd bob ochr i borth y castell. I'r gogledd-orllewin mae yna grŵp dwysach o goed o amgylch Park Farm. Mewn blynyddoedd diweddar, mae rhywogaethau ymwthiol sy'n cynnwys glasbrennau sycamorwydd, helyg a llysiâu'r dial wedi ymgartrefu mewn ardaloedd o'r Ardal Gadwraeth. Mewn rhai lleoliadau, mae tyfiant toreithiog y glasbrennau wedi ymyrryd â golygfeydd annwyl lleol (e.e. golygfeydd o'r môr a'r castell)

Coed sy'n bwysig i osodiad yr Ardal Gadwraeth (gweler y map o nodweddion am fwy o fanylder a'u lleoliad)

- Coed ar ochrau gogleddol a dwyreiniol Maes Parcio'r Traeth
- Clawdd draenen ddu ar hyd y llwybr troed i'r gogledd-orllewin o Shute Cottages
- Coetir i'r gogledd-orllewin o'r felin a'r coed/prysgwydd yn ardal y colomendy ar hyd y llwybr troed
- Coed ar hyd y llwybr troed i'r gorllewin o'r eglwys gan gynnwys pinwydd
- Coetir i'r gogledd o'r gwaith trin dŵr
- Tir cors coediog y naill ochr a'r llall i'r llwybr troed yn Park Farm a'r llethr coediog i'r dwyrain
- Y 'Twnnel'
- Coed i'r gogledd orllewin a'r de o Long Park
- Coed ar dir y Castell
- Coed o fewn cwrtil Morfa Terrace ac ar ei ymylon
- Coed ar ffin Fernley Lodge ac o fewn y cwrtil
- Coed i'r gogledd o Glan-y-Mor
- Coed yng ngardd May Cottage
- Coed ar hyd ffin heol Castle Mead
- Coeden yng ngardd Ashley House

2.5 HUNANIAETH

Mae 'cymeriad' Maenorbŷr yn cynnwys mwy na'r dirwedd, adeiladau a strwythurau - mae wedi'i llunio'n sylfaenol gan ei phobl. Mae straeon, traddodiadau a digwyddiadau oll yn allweddol pwysig i ddeall y pentref, a'i warchod. Mae'r Datganiad o Gymeriad yn cynnwys adran ar wahân ar Hunaniaeth, sy'n amlinellu'r cyfraniadau hyn.

2.6 GWARCHOD Y DDAEAREG A BIOAMRYWIAETH

Mae bioamrywiaeth Maenorbŷr yn bwysig yn genedlaethol ac yn lleol ac mae wedi'i nodi'n fanwl yn y Datganiad o Gymeriad. Mae rhannau o'r Ardal Gadwraeth wedi eu cynnwys o fewn y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o Glogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven sy'n bwysig yn genedlaethol am ei gynefinoedd a'i rhywogaethau, ac am ei ddaeareg a'i dirffurf. Mae'r ardaloedd

rhynglanwol a'r môr agored ger Maenorbŷr wedi eu cynnwys yn ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Forol. Mae yACASBF o bwysigrwydd Ewropeaidd am ei bioamrywiaeth ac am gadwraeth forol. O ran y SoDdGA, mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol rwymedigaethau o dan Adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, i gymryd camau rhesymol i symud y broses o warchod a gwella'r blodau, ffawna neu nodweddion daearegol y dynodwyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o'u herwydd, yn eu blaen. Er ei bod tu allan i'r SoDdGA, mae yna nifer o gynefinoedd lled-naturiol pwysig yn yr Ardal Gadwraeth, e.e. y dyffryn o galchfaen sy'n goediog yn rhannol, uwchben y pyllau pysgod. Mae'r pyllau pysgod a'r ardal o amgylch yn enghraifft o ffen a chynefinoedd gwlypdir eraill â photensial ar gyfer cynefin dŵr agored. O fewn y pentref, mae waliau calchfaen a choed yn cynnal amrywiaeth o flodau, gan gynnwys rhedyn a chennau. Mae gerddi preifat hefyd yn cynnig cysgod a ffynonellau bwyd ar gyfer pryfed, adar ac ystlumod. Mae'n bwysig cydnabod bod angen anelu rheolaeth cynefinoedd potensial/cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli at warchod neu annog rhywogaethau dan amddiffyniad (e.e. ystlumod, tylluanod a chennau). Mae bron pob ystlum Prydeinig yn dibynnu ar strwythurau a wnaed gan bobl ar ryw adeg yn eu cylch oes blynyddol (e.e. adeiladau, colomendai, odynau calch) oherwydd dinistriwyd y rhan fwyaf o safleoedd clwydo naturiol neu mae yna rywbeth neu rywun yn tarfu arnynt. Mae pob math o ystlum a'u clwydi wedi eu hamddiffyn gan ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd, dimensiwn hanfodol bwysig i fioamrywiaeth yn yr amgylchedd trefol neu led-naturiol.



Maenorbyr

Ardal Gadwraeth: Dynodiadau Cadwraeth Statudol



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

Maenorbyr Ardal Gadwraeth Dynodwyd 1997

- 1** Approach from western coastal lane bounded by traditional stone walls. Views across sandy beach towards headland. Fine sea views. Buildings of Manorbier Camp visible on horizon, also views of church tower and Skrinkle estate.
- 2** Views from western approach bounded by characteristic hedgerbanks showing whitewashed church tower, castle set on its spur and the houses in the village in the hinterland dotted among the trees: Tarr Farm and Glan y Mor particularly prominent.
- 3** Views from the beach/sea showing castle on its dramatic spur, which divides two valleys. Northern horizon above farmland crowned by houses including Boat Cottage and Vigilant House. Church tower to the east with village set back among trees.
- 4** Distant views of whitewashed church tower, with fields above on horizon.
- 5** Glimpses of castle and sea from attractive rural lane. Glimpses south and east of village roadscape.
- 6** Views from eastern approach (B4585) across open farmland towards Hill Farm.
- 7** View of church tower and coastal headlands.
- 8** View of church tower from Hill Farm valley.
- 9** View of village north from Hill Farm.
- 10** View of village north west from Hill Farm.


Graddfa

0 400 m



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

Maenorbyr



3 DADANSODDIAD O GRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU MAENORBÛR

Ar sail y 'Datganiad o Gymeriad' mae'r gweithgor wedi nodi, ym marn y gweithgor, beth yw'r prif

Gryfderau

Gwendidau

Cyfleoedd

Bygythiadau y mae Ardal Gadwraeth MaenorbÛr yn eu hwynebu

Mae'n rhaid sicrhau mai'r nod yw adeiladu ar gryfderau a bachu cyfleoedd tra ar yr un pryd yn trawsnewid gwendidau yn gryfderau a bygythiadau yn gyfleoedd.

Datblygwyd y dadansoddiad hwn o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau gan y gweithgor. Mae'n cynnwys sawl eitem sy'n disgyn tu allan i ddibenion a sgôp gofodol ymarfer y Cynigion ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Gellir mynd ar drywydd y cyfoeth hwn o ddefnyddiau, cyfleoedd eraill ayb. (a ddangosir gyda seren yn y rhestr ganlynol) trwy sianelau priodol eraill. Nid yw llawer o'r materion sydd yn y Dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn rhai sy'n arbennig i'r Ardal Gadwraeth ei hun: mae llawer yn ymwneud â'r ardal yn gyffredinol neu Sir Benfro yn ei chyfanrwydd.

Er mwyn gwarchod cymeriad ac awyrgylch arbennig MaenorbÛr, mae'r gymuned yn credu, wrth ystyried effaith cynigion i ddatblygu ar ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, y dylai'r rheiny sy'n gysylltiedig, ble'n bosib, anelu at gynnal y cryfderau, datblygu'r cyfleoedd, cadw'r gwendidau i leiafswm a chael gwared ar y bygythiadau a nodwyd yn y dadansoddiad. Ceir rhestr lawn o'r Cynigion ar gyfer MaenorbÛr sy'n ymddangos yn Adranau 5 i 12, yn y Rhaglen/Cynllun Gweithredu yn Adran 15.

1. CRYFDERAU

1.1. Lleoliad

Dynodiad Parc Cenedlaethol/Ardal Gadwraeth Gosodiad arfordirol gwych
Y Bae, y Castell a'r Eglwys yn fan ffocws neilltuol ar gyfer y pentref
Traeth tywodlyd deniadol a mynediad at draethau poblogaidd eraill

1.2 Pwysigrwydd Archeolegol, Pensaernïol a Hanesyddol (gweler Datganiad o Gymeriad MaenorbÛr 2001) Safle archeolegol unigryw

Tarddiad yr anheddiad yn amlwg ynddo'i hun (Castell, Eglwys ayb)
Ardal Gadwraeth o gymeriad pendant, wedi ei chadw'n dda
12 Adeilad Rhestredig a 3 Heneb Gofrestredig o fewn yr Ardal Gadwraeth
Yr ardal o amgylch yn gyfoeth o dreftadaeth ddiwydiannol, amaethyddol a morol
Cefnogaeth gref ar gyfer archaeoleg a hanes Safleoedd a nodweddion hanesyddol archeolegol heb eu dynodi
Systemau cae cynnar yn yr ardal o amgylch Man geni Gerallt Gymro

1.3 Pwysigrwydd Pensaernïol

Palet cryf o ddefnyddiau a ffurfiau
Adeiladau "eiconig" o bwysigrwydd neilltuol (castell, colomendy, melin, eglwys)
Strydlun nodweddiadol o'r 19G gydag adeiladau diweddarach wedi eu gwasgaru hwnt ac yma
Walïau ffin o galchfaen o bwysigrwydd neilltuol

1.4 Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth o Bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol a Lleol

SoDdGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) Clogwyni Freshwater East i Skrinkle Haven
Rhwydwaith Natura 2000 Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Sir Benfro Forol Bioamrywiaeth leol – cynefinoedd pwysig (ardaloedd agored, gerddi, adeiladau a walïau calchfaen)
Cyfraith genedlaethol ac Ewropeaidd mewn grym i amddiffyn rhywogaethau tra'n gwneud gwaith adeiladau (e.e ystlumod)

1.5 Cyrchfan Bwysig i Dwristiaid yn Genedlaethol ac yn Rhyngwladol

Masnach dwristiaid wedi'i sefydlu'n dda
Rhan o farchnata sirol a chenedlaethol;
Lleoliad boblogaidd i ymwelwyr a phobl leol trwy gydol y flwyddyn
Amrywiaeth eang o lety i dwristiaid ym MaenorbÛr
Amrywiaeth eang o weithgareddau i dwristiaid yn yr ardal o amgylch
Agos at Ddinbych-y-pysgod, sydd, yn hanesyddol, yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr
Un o'r lleoliadau syrffio gorau yn Sir Benfro

1.6 Hygyrchedd

Rhwydwaith o heolydd i Sir Benfro wedi gwella
Hygyrch ar y trên
Llwybr Cenedlaethol/Hawliau Tramwy
Cyhoeddus/llwybrau canïataol/llwybrau ceffylau

- llwybrau beicio.
- 1.7 Amrywiaeth o wasanaethau ac amwynderau**
Amrywiaeth dda o lety yn yr ardal (Gwestai, Tai Gwestai, Gwely a Brecwast, Hunan Arlwygo a Meysydd Carafannau)
Gallu bodloni gofynion lleol (tafarn leol, siop, swyddfa bost, bwyty)
- 1.8 Prosiectau cymunedol a chynlluniau gwella sydd eisoes yn bodoli, a rhai a gynigir**
Pyllau pysgod, colomendy, melin a'r ardal o amgylch
Planhigion y pentref a'r meinciau
- 1.9 Hunaniaeth Gref a "Naws Unigryw am Le"**
Tystiolaeth gref o darddiad cynhanesyddol a chanoloesol
Apêl weledol gryf gydag adeiladau eiconig mewn gosodiad gwych
Waliau calchfaen bob ochr i'r heolydd troellog
Adeiladau wedi eu crynhoi yng nghanol y pentref: gosodiad arfordirol agored cyferbyniol gyda chastell, eglwys ayb
Oed a graddfa adeiladau'n wahanol, sy'n elfen unigryw
Gosodiad gwych ymysg y coed
- 1.10 Diwylliant a Chwedloniaeth**
Hanes modern a hynafol wedi'i ddogfenu, sydd o bwysigrwydd lleol a Chenedlaethol
Diddordeb cryf parhaus mewn treftadaeth leol a Cheltaidd yn yr ardal
"Ansawdd bywyd" da
- 1.11 Ysbryd Cymunedol Egniol a Gweithgar**
Nifer o glybiau a chymdeithasau sy'n cael cefnogaeth dda (24)
Cyngor Cymuned
Rhai anghenion crefyddol ac ysbrydol yn cael sylw
Awyrgylch croesawgar yn gyffredinol
- 2. GWENDIDAU**
- 2.1 Economi/Adnoddau**
Economi lleol yn fregus*
Diffyg cyfleoedd cyflogaeth*
Yr ardal yn dibynnu'n gryf ar dwristiaeth, byrdrâ'r tymor ymwelwyr*
Canran uchel o gyflogaeth â chyflog isel ac yn ddi-sgil ac yn cael ei gweld fel cyflogaeth statws isel*
Pobl ifanc yn allfudo / pobl hŷn yn mewnfudo*
Masnach dwristiaeth dymhorol iawn *
Argaeledd gwasanaethau (Gofal deintyddol, iechyd) yn wael*
- 2.2 Rhanddeiliaid ac Awdurdodau sydd ar Dir y Cyhoedd**
Canfyddiad fod diffyg ymgynghoriad o dir y cyhoedd
Canfyddiad fod methiant yn y cyfathrebu rhwng partneriaethau
Agosatrwydd safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn gyda llygredd sŵn, gweledol ac aer a diffyg mynediad at ddarn pwysig o'r morlin*
- 2.3 Rheoli Ymwelwyr**
Diffyg strategaeth gyffredin ar gyfer y diwydiant twristiaeth*
Dirywiad mewn gwasanaethau trê'n i'r ardal*
Darpariaeth ddehongli annigonol ar gyfer ymwelwyr neu nid ydyw wedi'i chynllunio a'i lleoli'n dda iawn
- 2.4 Colli hunaniaeth neu gymeriad yr ardal/strydlun**
Newidiadau mewn arferion amaethyddol yn arwain at newidiadau yng nghymeriad y dirwedd a'i hunaniaeth*
Ymagwedd dameidiog at brosiectau yn gyffredinol
Polion a gwifrau uwchben yn ymwthiol
Dodrefn stryd / arwyddion yn ymwthiol
Colli waliau calchfaen traddodiadol neu maen nhw dan fygythiad
Ardaloedd o lystyfiant/coed ymwthiol
- 2.5 Rheoli gofodau agored a chyhoeddus**
Problem sbwriel gyffredinol
Cŵn yn baeddu*
Erydiad, cynnal a chadw ac arwyddion ar y llwybrau troed
Ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth yn anniben yn gyffredinol
Cyflwr dirywiol ardal hamdden ac ardal picnic y castell
- 2.6 Bioamrywiaeth**
Colli cynefinoedd
Cyflwyno dulliau a defnyddiau anaddas yn yr amgylchedd adeiledig sy'n niweidiol i fywyd gwylt
Rheolaeth anaddas cynefinoedd (coetir, twyni, glaswelltir ayb.)
- 2.7 Rheoli Traffig**
Materion rheoli traffig heb eu datrys (parcio, cyflymder, llif ac arwyddion)*
Llif traffig yn drwm yn ystod y tymor brig*
Canfyddiad bod y gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus/y defnydd ohono yn wael*
Nid oes digon o le i barcio ceir yn y pentref
Gostyngiad yn y gwariant ar seilwaith heolydd yn ardal Maenorbŷr*
Gwrthdaro rhwng cerddwyr a thraffig

Nid oes llwybr diogel i gerdded i'r ysgol*

2.8 Colli hunaniaeth neu gymeriad y strydlyn (cerbydau)

Effaith cerbydau ar y ffabrig hanesyddol
Cyffyrdd, arwyddion, marciau traffig,
arwynebau heolydd a phalmentydd yn cael eu
safoni mewn ffordd amhriodol
Colli rhai blaengyrtiau i lefydd parcio

2.9 Ymwybyddiaeth o Warchod Adeiladau

Ffabrig hanesyddol angen gofal cyson
Defnyddiau, cynllun a manylion anaddas yn yr
amgylchedd adeiledig hanesyddol
Cwrtillau'n cael eu trin mewn ffordd anaddas /
diffyg atgyweiriad
Diffyg ymwybyddiaeth a diffyg sgiliau ym maes
gwarchod adeiladau

2.10 Naws am Le

93% o eiddo mewn cyflwr da (7% angen mân
atgyweiriadau)
Planhigion ymwithiol ar waliau ffin
Rhywogaethau ymwithiol o goed, prysglwyni a
phlanhigion eraill mewn ardaloedd penodol
(e.e. y castell)
Safleoedd anniben (bloc toiledau)
Safleoedd wedi eu tirlunio'n amhriodol/heb eu
tirlunio (e.e. gwaith dŵr/carthffosiaeth,
cyfnewidydd trydan) o fewn y dirwedd
hanesyddol

2.12 Datblygiad

Diffyg tai fforddiadwy/gostyngiad yn y stoc dai
cymdeithasol
Cynnydd ym mhrisiau tai
Canfyddiad negyddol y cyhoedd ynghylch
rheoli datblygiad a gorfodaeth ar gyfer "y
tlawd"

3. CYFLEOEDD

3.1 Economi/Adnoddau

Cymorth grant a Mentrau Partneriaeth
(Ewropeaidd, Cenedlaethol; Cynulliad
Cenedlaethol; Cadw; Bwrdd Croeso Cymru; y
WDA; Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Cyngor Sir
Penfro, Rhanbarthol; Loteri; Uned Adfywio
Cymunedol, PLANED, Gwirfoddol)*
Annog gwaith partneriaeth a chyfraniad y
sector preifat
Cynnydd mewn cyfleoedd gwaith ar sail
adnoddau naturiol yr ardal*
Datblygiadau a gwelliannau newydd arloesol a
sensitif
Dilyniant cynaliadwy a sympathetig trwy'r 21G
Datblygiad pellach y Seilwaith TG/E-fasnach*

3.2 Twristiaeth

Yr angen am strategaeth gyffredin ar gyfer y

diwydiant twristiaeth?*

Cydnabod Maenorbŷr fel rhan o gynnyrch
twristiaeth ehangach yn Sir Benfro*
Yr angen i wasanaethu amrywiaeth o
ymwelwyr dros dymor hirach*
Twristiaeth gwyliau byr*
Ehangu'r ffocws wrth farchnata'r pentref yn
hytrach na chanolbwyntio ar y castell a'r
traeth*

3.3 Gwella

Toiledau Cyhoeddus – (Pembroke Road)
Ardal Bicnic
Cysgodfan Bysiau
Colomendy; Melin; Pyllau Pysgod
Rheoli/Gwaredu Llysiau'r Dial
Atal yr arfer o ollwng sbwriel yn anghyfreithlon
- (e.e. ardal giât y Castell)
Gwaith dŵr
Gwaith carthffosiaeth

3.4 Tir y Cyhoedd

Yr angen am well cydlynid ymhlith partneriaid
wrth fynd ar drywydd prosiectau
Parhau i gynnwys y sector cyhoeddus mewn
gwelliannau amgylcheddol a seilwaith

3.5 Colli hunaniaeth cymeriad y strydlyn

Gosod gwifrau dan ddaear
Adnabod a gweithredu Cynllun goleuo priodol
Rhesymoli arwyddion
Datblygu dyluniad dodrefn stryd a rhaglen
adnewyddu

3.6 Bioamrywiaeth a Daeareg

Cynyddu ymwybyddiaeth o gysylltiadau rhwng
bioamrywiaeth a gwarchod adeiladau (h.y.
blodau waliau, ystumod)

3.7 Rheoli Ardaloedd Agored

Rheoli coed i wella golygfeydd a phlannu
rhywogaethau priodol o'r newydd
Cydnabod lonydd, traciau ac aleau hanesyddol
a'u hymdeimlad caeedig
Dod o hyd i enghreifftiau o dirlunio, plannu
neu fanylion amhriodol a/neu rhai sydd wedi'u
hesgeuluso mewn ardaloedd agored
Ymchwilio i faterion sbwriel
Ymchwilio i achosion o faeddu cŵn*
Ymchwilio i ddarpariaeth ardaloedd mwy
agored
Ymchwilio i ddarpariaeth mwy o fynediad i
gerddwyr/llwybrau troed/llwybrau hanesyddol

3.8 Rheoli Traffig

Datrys materion rheoli traffig*
Ymagwedd integredig at reoli traffig –
arwyddion, parcio ceir, parcio i'r anabl
Gorfodi cyfyngiadau cyflymder a pharcio*
Yr angen am rwydwaith o heolydd sydd wedi'i

wella yn lleol*

3.9 Colli hunaniaeth neu gymeriad y strydlun

Annog arfer gorau o ran cadwraeth wrth ddefnyddio arwynebau, manylder a gosod cyffyrdd
Adnewyddu palmentydd/blaengyrtiau mewn ffordd sympathetig yn y pentref
Archwilio opsiynau cadwraeth eraill ar gyfer marciau ffyrdd safonol ymwthiol yn yr Ardal Gadwraeth
Gwella a rhesymoli arwyddion cyfeirio
Ymchwilio i'r cynllun llwybrau diogel i'r ysgol, tra'n cynnal cymeriad y strydlun a'r ardal

3.10 Prosiectau Cymunedol a Hamdden

Darparu portread technolegol o dreftadaeth a hanes
Denu mentrau newydd, gan helpu gyda chyfleoedd ar gyfer y cydbwysedd bywyd a gwaith trwy dechnoleg gwybodaeth *
Gwella cydlynid cymunedol*
Cefnogi cynlluniau a digwyddiadau cymunedol sydd wedi eu sefydlu, a'u hybu
Hybu a chefnogi'r gwaith o ddehongli treftadaeth yr ardal (e.e. llyfryn)
Parhau i gofnodi traddodiadau a chwedloniaeth leol

3.11 Ymwybyddiaeth / Rheoli Ymwelwyr

Archwilio'r angen am ddarpariaeth ddehongli bellach
Cynnal hunaniaeth a chymeriad arbennig
Codi safon y lle gan felly gynyddu'r disgwyliad am gynnyrch o safon
Cynnal y cydbwysedd rhwng twristiaeth ac anghenion y bobl leol*
Gwella hysbysebu masnachol amhriodol
Ymchwilio i ddarpariaeth seilwaith mynediad i'r anabl

3.12 Gwarchod Adeiladau

Ymchwilio i'r ymwybyddiaeth o gymorth ariannol
Cynyddu ymwybyddiaeth o gynlluniau grant presennol
Annog y defnydd o ddefnyddiau a dyluniad priodol yn yr amgylchedd adeiledig hanesyddol
Cyfle i weithredu gofynion y Ddeddf
Gwahaniaethu ar Sail Anabledd mewn ffordd sensitif
Archwilio potensial yr estyniad a awgrymwyd i ffin yr Ardal Gadwraeth
Annog triniaeth briodol ar gyfer ffiniau
Gwella'r diffyg ymwybyddiaeth a'r diffyg sgiliau ym maes gwarchod adeiladau
Cyfle i gydnabod safleoedd archeolegol heb eu dynodi

3.13 Bioamrywiaeth

Codi ymwybyddiaeth ynghylch materion a gofynion gwarchod rhywogaethau wrth wneud gwaith adeiladu (pobl sy'n gwarchod adeiladau, penseiri, adeiladwyr a pherchnogion).
Sicrhau bod egwyddorion arfer gorau wrth warchod adeiladau a rheoli cynefinoedd yn cael eu gweithredu yn ystod gwaith sy'n effeithio ar rywogaethau sydd wedi eu hamddiffyn yn statudol
Rheoli cynefinoedd mewn ffordd sensitif (h.y. rhywogaethau heb eu hamddiffyn e.e. y blodau ar hen waliau ayb.)
Cynllun Rheoli Coed

3.14 Datblygiad

Annog datblygiad ac ailddatblygiad sympathetig a chynaliadwy
Atal datblygiadau ansympathetig

3.15 Astudiaeth ac Ymchwil

Rhoi sylw i'r diffyg sgiliau ac ymchwil ym maes Gwarchod Adeiladau
Hyfforddiant ar Dreftadaeth Adeiledig
Ymchwil i archeoleg, hanes a chwedloniaeth leol
Annog defnyddiau, technegau a thechnoleg fodern briodol

3.16 Ymwybyddiaeth

Cynnyrch, defnyddiau, cynllun a manylion amhriodol
Colli ffabrig hanesyddol, diwylliant, sgiliau, iaith, traddodiadau ac enwau
Hunanfodlonrwydd
Diffyg ymwybyddiaeth wrth ymgymryd â gwaith adeiladu yn bygwth bioamrywiaeth

4. BYGYTHIADAU

4.1 Economi/Adnoddau

Effaith dirywiad amaethyddiaeth ar y dirwedd o amgylch a'r gymuned*
Y genhedlaeth iau yn parhau i allfudo*
Dibyniaeth economaidd gynyddol ar dwristiaeth*
Mwy o gystadleuaeth gan wyliau pecyn tramor*
Methu ag ymateb i newidiadau yng ngofynion y farchnad*
Dirywiad twristiaeth draddodiadol*
Effaith y cynnydd yn niferoedd ail gartrefi, ac eiddo sy'n cael ei osod ar gyfer gwyliau, ar y gweithgareddau a gwasanaethau cymunedol (siop, tafarn, caffii, Swyddfa Bost)*

4.2 Tir y Cyhoedd

Esgeulustod ac annibendod oherwydd

gostyngiad ym muddsoddiad llywodraeth leol*
Cynnyrch a rhagofynion yn cael eu safoni
mewn ffordd amhriodol, yn fwy a mwy aml
(e.e. dodrefn stryd)
Diffyg cynnal a chadw mewn ardaloedd
cymunedol (parciau a gerddi)

4.3 Rheoli Traffig

Methu â rhoi sylw i faterion traffig mewn
ffordd foddhaol
Cynnydd yn llif traffig a phroblemau parcio
(gan ostwng mwynhad y cyhoedd)
Safoni cynnyrch, cynlluniau a defnyddiau
mewn ffordd amhriodol
Colli ffabrig hanesyddol a niweidio adeiladau
a'r amgylchedd o ganlyniad i gerbydau a'u
hallyriannau
Agor blaengyrtiau/waliau cwrtil i roi lle i geir

4.4 Ymwybyddiaeth

Mewnfudiad cynyddol yn gysylltiedig â cholli
diwylliant a thraddodiadau a gostwng ysbryd /
grym gyrru'r gymdeithas a'r gymuned*
Cynnyrch, defnyddiau, cynllun a manylion
amhriodol
Colli ffabrig hanesyddol, diwylliant, sgiliau,
iaith, traddodiadau ac enwau
Lefel y gofal ar gyfer y ffabrig hanesyddol
Hunanfodlonrwydd
Diffyg ymwybyddiaeth wrth wneud gwaith
adeiladu yn bygwth bioamrywiaeth Diraddio
ardaloedd agored/gwyrdd a golygfeydd
hanesyddol
Llechfeddiant y graean bras ar y traeth*
Diffyg cynnal a chadw mewn rhai ardaloedd
agored yn arwain at ymgartrefiad coed a
phlanhigion ymwthiol (e.e. Llysiau'r Dial,
glasbrennau sycamorwydd)

4.5 Bioamrywiaeth

Colli cynefinoedd (perylg trefoliad "tacluso'n
ormodol")

4.6 Datblygiad

Pwysedd parhaus oherwydd datblygiadau
Datblygiadau nad ydynt yng nghymeriad yr
ardal
Datblygiadau amhriodol o fewn yr Ardal
Gadwraeth
Mwy o ddefnydd o gynnyrch, defnyddiau a
chynlluniau homogenaidd
Diffyg argaeledd defnyddiau a sgiliau lleol
Defnydd parhaus neu ddatblygiad pellach
Maes Gwrth-Awyrennau Maenorbŷr yn cael ei
weld fel elfen sy'n niweidiol i drigolion a
thwristiaid*

4 DADANSODDIAD O DDIBEN, AMCANION, STRATEGAETH A THEMÂU ARDAL GADWRAETH MAENORBÛR

Mae angen rhoi sylw i'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau a nodwyd yn adran tri fel rhan o ymagwedd gydlynol, wedi'i strwythuro. Un ymagwedd o'r fath yw defnyddio dadansoddiad o Ddiben, Amcanion, Strategaeth a Themâu sy'n strwythuro'r ffordd o feddwl mewn hierarchaeth glir, o'r athroniaethau sylfaenol i fanylion gweithredu.

Diben

- Gwarchod a gwella'r nodweddion pensaernïol, archeolegol a hanesyddol arbennig sy'n cyfrannu at gymeriad Ardal Gadwraeth MaenorbÛr mewn ffordd briodol a, ble'n bosib, mewn ffordd gynaliadwy.

Amcanion

- Sicrhau bod y nodweddion arbennig sy'n cyfrannu at gymeriad Ardal Gadwraeth MaenorbÛr yn cael eu gwerthfawrogi, eu gwarchod, a'u gwella am eu gwerth hanesyddol, pensaernïol ac esthetig ac am eu cyfraniad at ansawdd ein bywydau a'r economi lleol.
- Sicrhau bod unrhyw waith a datblygiadau newydd yn parhau cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn ychwanegu ato, ac nad oes unrhyw waith newydd yn tynnu oddi ar yr ardal nac yn ei niweidio.
- Sicrhau bod y defnydd o'r Ardal Gadwraeth, a'i rheolaeth, yn parhau ei nodweddion arbennig, ac yn ychwanegu atynt, ac nad oes unrhyw ddefnydd neu reolaeth yn y dyfodol yn tynnu oddi ar y ei chymeriad nac yn ei niweidio.
- Sicrhau bod gosodiad yr Ardal Gadwraeth yn cael ei warchod a'i wella.
- Sicrhau bod datblygiad a defnydd yn cydymffurfio â'r polisiâu a osodir yn y CDLI (o fewn y ddogfen hon tanlinellir polisiâu pwysig ond dylid nodi bod angen darllen y CDLI yn ei gyfanrwydd ac felly fe allai polisiâu eraill fod yn berthnasol hefyd) a'r amcanion sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Cymunedol.
- Sicrhau bod adeiladau hanesyddol yn cael eu gwarchod gan ddefnyddio arferion cadwraeth gorau (e.e. Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol (SPAB), Cadw ayb.), gan gadw cymaint â phosib o'r ffabrig hanesyddol mewnol ac allanol a defnyddio defnyddiau traddodiadol, a rhai a gafwyd mewn ffordd gynaliadwy ble'n bosib.

Strategaeth


- Gweithio gyda phobl leol i:
 - Gynhyrchu Datganiad o Gymeriad cynhwysfawr ar gyfer Ardal Gadwraeth MaenorbÛr, sy'n nodi pam dynodwyd yr ardal a beth yw ei nodweddion arbennig.

- Cynhyrchu Dogfen Gynigion gynhwysfawr ar gyfer Ardal Gadwraeth MaenorbÛr yn nodi sut mae modd gwarchod a gwella'i nodweddion arbennig ar gyfer y presennol a'r dyfodol.
- Sicrhau bod y dogfennau hyn yn seiliedig ar:
 - Ymchwil drylwyr
 - Ymgynghori helaeth
 - Perchnogaeth eang y fenter

Themâu (Offerynnau)

- Datblygu a gweithredu rhaglen gydlynol o gynigion ar sail y themâu canlynol:
 - Adnoddau
 - Tir y Cyhoedd
 - Rheoli Traffig
 - Prosiectau Cymunedol
 - Ymwybyddiaeth
 - Datblygiad
 - Rheolaeth
 - Astudiaeth ac Ymchwil

a cheir manylion y rhain yn adrannau 5-12, gan gynnwys adran 5 ac adran 12.



Maenorbÿr
Ardal Gadwraeth
Dynodwyd 1997

Allwedd

- Flin yr Ardal Gadwraeth
- Adelaidau Tirnod
- Adelaidau o bwysigrwydd lleol
- Nodweddion lleol
- Golygfeydd allweddol
- Cipolwg o wrthrych/tirnod/pwynt diddirdeb
- Cwrtiau/ffryntadau pwysig
- Mannau agored pwysig
- Trywydd pwysig i gerddwyr
- Coed sy'n bwysig i leoliad yr Ardal Gadwraeth



Graddfa



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**











**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**

Maenorbŷr
Ardal Gadwraeth: Cyfleoedd

Maenorbŷr
Ardal Gadwraeth
Dynodwyd 1997


Allwedd

-  Ffin yr Ardal Gadwraeth
-  Cyfle i wella'r blaengwrt/cwntil/
ffynnidau stop
-  Cyfle i wella'r oedolud
-  Cyfle i wella'r ardal
-  Cyfle i wella'r y ghoedd/nodweddion
-  Cyfle i roi sylw i'r gwrthdaro rhwng
traffig a cherddwyr

Graddfa

0 200 m

**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**



5 ADNODDAU

5.1 NAWDD CADWRAETH – GRANTIAU CADW

A hyn o bryd, efallai y bydd nawdd cyfyngedig ar gael gan Cadw ar gyfer cynlluniau o fewn yr Ardal Gadwraeth, ar gyfer atgyweiriadau i adeiladau hanesyddol. Fe fydd yr Awdurdod yn annog mwy o adnoddau i gael eu cyfeirio at Ardaloedd Cadwraeth fel Maenorbŷr.

Egwyddorion

Mae Cadw yn cynnig dau grant:

- Gwaith ar adeiladau neilltuol (Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953).
- Gwaith sy'n cyfrannu'n sylweddol at warchod neu wella cymeriad Ardal Gadwraeth, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990).

Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 y CDLI (Nodweddion Arbennig)

Cynigion

Sicrhau bod grantiau presennol Cadw yn:

- Cael eu defnyddio'n llwyr i warchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Cael eu defnyddio fel eu bod yn mynd law yn llaw gyda threfniadau grant eraill.
- Cael eu targedu at eiddo a lleoliadau pwysig.

Blaenoriaethau

Dweud wrth bawb sy'n gysylltiedig â gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth fod grantiau Cadw ar gael.

Lle

Dweud wrth bawb sy'n gysylltiedig ag adeiladau ac ardaloedd pwysig fod grantiau Cadw ar gael.

Partneriaid

Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau.

Rhaglen

Rhan o ymgyrch ymwybyddiaeth gyffredinol.

Ar Waith

Cyswllt parhaus gyda Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau.

5.2 NAWDD CADWRAETH – GRANTIAU'R BARTNERIAETH CYNLLUN TREF HANESYDDOL (APCAP)

Egwyddorion

Ar hyn o bryd, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn partneriaeth â Cadw, yn cynnig grantiau i berchnogion eiddo yn Ninbych-y-pysgod, Tyddewi a

Saundersfoot, i'w hannog i warchod a gwella adeiladau hanesyddol o fewn yr Ardal Gadwraeth mewn ffordd briodol. Mae'r Awdurdod yn trafod gyda Cadw i ymestyn y grantiau hyn at yr holl Ardaloedd Cadwraeth.

Polisi Allweddol

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)

Cynigion

Sefydlu cynllun o dan Adran 57 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 a sicrhau nawdd gan amrywiaeth eang o bartneriaid.

Blaenoriaethau

Diffinio'r adeiladau, nodweddion a gweithiau hynny sy'n cyfrannu fwyaf at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Partneriaid

APCAP, Cadw, LICC, Cynghorau Cymuned a pherchnogion eiddo o bosibl.

Rhaglen

Cysylltu â phartneriaid allweddol yn rheolaidd gyda golwg i gytuno ar gyllid.

5.3 CYLLID CADWRAETH DIM ADEILADAU

(e.e. grantiau tai, cyllideb isadeiledd prif ffyrdd, grantiau LICC, cyllidebau ymgymerydd statudol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) a.y.b.

Egwyddorion

Mae'r economi lleol yn fregus (yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth, amaethyddiaeth a'r sector cyhoeddus) ac mae gwaith cadwraeth yn gallu bod yn gostus.

Mae'n bwysig felly sicrhau bod:

- Nawdd a ddyrannwyd i'r ardal yn barod yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth (ymhlith pethau eraill)
- Nawdd allanol ar gyfer gwaith gwarchod a gwella yn cael ei uchafu a'i gydlynw er mwyn helpu cynnal yr economi lleol.

Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 y CDLI (Nodweddion Arbennig)

Cynigion

- **Rhagweithiol:** cytuno ar amcanion cyffredin gyda chyllidwyr allanol tuag at ffurfioli "cytundebau gweithio", gyda phob un yn cydymffurfio gydag Adran 62 Deddf Amgylchedd 1995.
- **Ymatebol:** ymateb i fentrau cyllidwyr allanol gan dynnu eu sylw at bwysigrwydd gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth trwy'r

rhaglenni sydd ganddynt yn barod.

Blaenoriaethau

- Canolbwyntio ar y gwaith/rheolaeth sy'n cael yr effaith fwyaf ar warchod/gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Annog gweithrediad strategaeth rheoli ymwelwyr

Lle

Canolbwyntio ar yr ardaloedd a'r adeiladau pwysicaf wrth warchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth

Partneriaid

Pawb sy'n buddsoddi yn yr ardal, yn enwedig CSP, APCAP, ymgymeryddion statudol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Rhaglen

- **Rhagweithiol:** mynd at bartneriaid pwysig yn rheolaidd, gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio.
- **Ymatebol:** gweithio'n agos gyda chyllidwyr allanol gyda'r nod o gael dylanwad positif ar y rhaglenni gwaith sydd ganddynt yn barod.

Ar Waith

Darparu copi o'r ddogfen hon i'r prif swyddogion ym mhob un o'r asiantaethau cyllido perthnasol.

6 TIR Y CYHOEDD

Tra bod gwarchod a gwella eiddo preifat yn yr Ardal Gadwraeth yn bwysig, mae ardaloedd a nodweddion cyhoeddus (e.e. strydoedd, lonydd, aleau, palmentydd, polion, ceblau uwchben, arwyddion, goleuadau, meinciau ayb.) a hefyd bioamrywiaeth unigryw Maenorbŷr yn cael effaith sylweddol ar nodweddion arbennig yr ardal.

Er mwyn cystadlu ar lefel economaidd, mae angen i ganol trefi adnabod eu "personoliaeth" unigryw, a'i ecsploetio, fe eu bod yn cynnig rhesymau gwahanol i bobl ymweld. Mae tir cyhoeddus sydd wedi'i ddylunio'n dda ac o ansawdd uchel yn gallu helpu creu "naws am le" mewn cymunedau, sy'n ychwanegu at eu hatyniad y tu hwnt i'r ardal amlwg (Polisi Cynllunio Cymru NCT12: Dylunio paragraff 5. 14.3 (2009))

Egwyddorion

- Sicrhau bod ardaloedd cyhoeddus, nodweddion a'r fioamrywiaeth yn cael eu rheoli a'u gwella er mwyn helpu sicrhau bod nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu gwarchod a'u gwella.
- Anelu at wneud adeiladau hanesyddol sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn hygyrch i bawb (Goresgyn y rhwystrau: darparu mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol, (Cadw 2002).

Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 9 CDLI (Llygredd Golau)
- Polisi 16 CDLI (Gofodau Agored a Lletemau Glas)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)
- Polisi 55 CDLI (Llinellau Pŵer a Phiblinellau)

Cynnig

- **Rhagweithiol:** cytuno ar amcanion cyffredin, gyda'r sefydliadau perthnasol, tuag at ffurfioli "cytundebau gweithio" gyda phob un yn cydymffurfio gydag Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995..
- **Ymatebol:** ymateb i fentrau'r sefydliadau perthnasol gan dynnu eu sylw at bwysigrwydd gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth trwy'r rhaglenni sydd ganddynt yn barod.

Blaenoriaethau

Yr Ardal Gadwraeth gyfan a'i gosodiad ond gyda ffocws penodol ar:

- Osod ceblau salw o dan y ddaear (yn amodol ar ystyriaethau archeolegol a daearegol).
- Rhesymoli dyluniad a lleoliad dodrefn stryd
- Cynlluniau goleuo sensitif
- Cadw llygredd goleuni at leiafswm
- Dylunio a lleoli dodrefn stryd yn briodol

- Arwyddion priodol
- Marciau ffordd priodol
- Cadw nodweddion arbennig (e.e. rheiliau, cerrig cobl a gyliau ac arwyddion strydoedd)
- Annog rheolaeth gofodau agored sy'n eiddo i'r pentref ac yn eu cael eu rheoli ganddo (e.e. ymylon heolydd, parciau ac ardaloedd chwarae)
- Datblygu cynllun rheoli coed a llystyfiant
- Integreiddio bioamrywiaeth a chadwraeth yr amgylchedd adeiledig ar bob cyfle.
- Cefnogi cynlluniau cymunedol (e.e. Prosiect Adfer y Pyllau Pysgod Canoloesol)

Lle

Yr holl Ardal Gadwraeth ond gyda ffocws ar:-

- Polion a gwifrau
 - sy'n croesi Stryd y pentref
 - Tu allan i Inglenook
 - I'r dwyrain o Parish Hall
 - Tu allan i Pound Walls
 - I'r gorllewin o Awelon
 - Rhwng y Felin a'r Colomendy
 - Ochr ogleddol yr heol yn ymylu ar yr Ardd Goffa
 - Church Road
- Gwaith Trin Dŵr Maenorbŷr
- Maes Parcio Maenorbŷr
- Gwaith Trin Carthffosiaeth
- Yr Hen Doileddau Cyhoeddus, Pembroke Road
- Arhosfa Bysiau



Partneriaid

Yr holl asiantaethau hynny sy'n gysylltiedig â Thir y Cyhoedd ond yn enwedig:

- CSP
- APCAP
- Asiantaeth yr Amgylchedd (AA), British Telecom (BT), Western Power, Transco, Dŵr Cymru, CCGC, RSPB
- Cyngor Cymuned Maenorbŷr

Rhaglen

- **Rhagweithiol:** mynd at sefydliadau priodol gyda'r bwriad o gytuno ar gytundebau gweithio o fewn deuddeg mis
- **Ymatebol:** gweithio'n agos gyda sefydliadau priodol gyda'r bwriad o ddylanwadu mewn ffordd bositif ar eu rhaglenni presennol.

Ar Waith

Y cyfan yn unol â:

- Chanllawiau Cadw "Overcoming the Barriers - Providing Physical Access to Historic Buildings"

- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Archaeoleg ac Ardaloedd Hanesyddol
- Cadw Welsh Historic Monuments (n.d.) Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol
- English Heritage (1993) Street Improvements in Historic Areas
- English Heritage (1995) Development in Historic Environment
- English Heritage (1997) Conservation Issues in Local Plans
- English Heritage (Mehefin 1993) Conservation Area Practice: guidance on the management of Conservation Areas
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (1997) Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Polisi Cynllunio Cymru

7 RHEOLI TRAFFIG

Ni chynlluniwyd craidd hanesyddol Maenorbŷr i ddarparu ar gyfer cludiant modur sydd (yn enwedig yn ystod y tymor twristiaeth) yn gallu cael effaith niweidiol ar y gallu i warchod a mwynhau nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Mewn cymdogaethau trefol a gwledig sydd eisoes wedi cael eu sefydlu, dylid mabwysiadu mesurau rheoli traffig i wella amgylchedd y stryd ac i hyrwyddo diogelwch ar y ffordd (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010 paragraff 8.4.1)

Egwyddorion

- Atal difrod ffisegol i nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Gostwng tagfeydd (gan gynnwys anghyfleuster, aneffeithlonrwydd ayb.) a gwella diogelwch yn yr Ardal Gadwraeth.
- Gwella gallu cerddwyr a defnyddwyr eraill i fwynhau'r Ardal Gadwraeth, a'u diogelwch (trwy ostwng cyflymder, ymyraethau fel sŵn, arogleuon, llwch ayb).

Polisi Pwysig

- Polisi 52 CDLI (Trafnidiaeth Gynaliadwy)

Cynigion

Annog CSP i ddatblygu cynllun rheoli traffig yn unol ag Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995, ar gyfer yr Ardal Gadwraeth, fel rhan o strategaeth drafndiaeth ehangach ar gyfer yr ardal, sy'n cynnwys:

- Ystyried pedestrieddio / cynlluniau sy'n ystyried y cerddwr, tawelu traffig, parcio i drigolion / ymwelwyr, mynediad i'r anabl, rhwydweithiau seiclo a cherdded.
- Cyfyngiadau ar bwysau a hyd cerbydau, dosbarthu nwyddau, llwytho, mynediad, amser ayb.
- Gwella'r prif ddyfodfeydd.
- Ymchwilio i'r defnydd o gerbydau.
- Arfer Cadwraeth Gorau yn y defnydd o arwynebau, manylion a gosodiad cyffyrdd (Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol, Cadw (2001)

Blaenoriaethau

Mae angen cynnwys yr Ardal Gadwraeth gyfan, a'i gosodiad, mewn unrhyw gynllun rheoli traffig.

Lle

Mae'r ardal gyfan yn bwysig ond mae'r canlynol yn flaenoriaethau cadwraeth penodol.

- Heol yr Arfordir (gwrthdaro rhwng cerddwyr a thraffig)
- Cyffordd Neuadd y Plwyf a'r ddolen unffordd (llifo a pharcio))

- Pembroke Road (tagfeydd)
- Yr heol o Skrinkle (cyflymder)
- Ger Castlemead (cyflymder)
- Siop y Pentref/Swyddfa Bost (cyflymder, tagfeydd a pharcio)



Partneriaid

CSP, APCAP, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Cymuned Maenorbŷr.

Rhaglen

- **Rhagweithiol:** mynd at sefydliadau priodol o fewn deuddeg mis gyda'r nod o gytuno ar gytundebau gweithio.
- **Ymatebol:** gweithio'n agos gyda sefydliadau priodol gyda'r nod o ddylanwadu mewn ffordd bositif ar eu rhaglenni a'u harferion presennol

Ar Waith

Yn unol â

- Cadw Welsh Historic Monuments (n.d.) Rheoli Traffig mewn Ardaloedd Hanesyddol
- English Heritage (1993) Street Improvements in Historic Areas
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Polisi Cynllunio Cymru
- Civic Trust (1993) Traffic Measures in Historic Towns – an Introduction to good practice
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (1998) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)

8 PROSIECTAU CYMUNEDOL

Mae gan bobl a sefydliadau lleol lawer i'w gyfrannu at warchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.



Egwyddorion

Galluogi pobl a sefydliadau lleol i gyfrannu at warchod a gwella'r Ardal Gadwraeth, a'u cefnogi a'u hannog i wneud hynny.

Polisi Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)

Cynigion

- Helpu meithrin gallu'r gymuned i alluogi pobl leol i gyfrannu at y broses o wella'r Ardal Gadwraeth a'r gosodiad ehangach
- Meithrin synnwyr o 'falchder yn ein bro' yn yr Ardal Gadwraeth a'i gosodiad ehangach
- Annog ymweliadau gan ysgolion lleol/gweithdai/prosiectau/teithiau cerdded yn yr Ardal Gadwraeth
- Helpu dylanwadu ar / cefnogi mentrau lleol, i sicrhau eu bod yn cyfrannu at y broses o wella'r Ardal Gadwraeth a'i gosodiad ehangach

Blaenoriaethau

- **Rhagweithiol:** Annog partneriaid cymunedol pwysig i ddatblygu rhaglen o feithrin gallu.
- **Ymatebol:** Ymateb i ddyheadau'r gymuned a darparu'r gefnogaeth a'r cyngor sydd eu hangen.

Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth ac, er enghraifft:-

- Pyllau Pysgod Maenorbŷr (gan gynnwys y felin, y colomendy a'r ardal o amgylch)
- Plannu mwy o rywogaethau priodol o fylbiau, prysglwyni a choed

Partneriaid

Cyngor Cymuned Maenorbŷr, PLANED, CSP (UAC), APCAP, PAVS, Archaeoleg Cambria, grwpiau ac unigolion lleol sy'n gysylltiedig â chynnal y gymuned.

Rhaglen

- **Rhagweithiol:** Helpu'r sefydliadau priodol o fewn 12 mis i'w hannog i helpu'r gymuned leol i warchod a gwella'r ardal.
- **Ymatebol:** Helpu cefnogi prosiectau cymunedol gyda chefnogaeth a chyngor.



(Gweledigaeth ar gyfer Prosiect Adfer Pyllau Pysgod Canoloesol Maenorbŷr)

9 YMWYBYDDIAETH

Trwy ymwybyddiaeth daw dealltwriaeth, a thrwy ddealltwriaeth daw gofal. Mae hyn yn hanfodol wrth warchod yr adnodd adeiledig hanesyddol. Ar draws Cymru'n gyffredinol, mae lefel wybodaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r adnodd hanesyddol yn isel.

Mae nifer o addasiadau bach anaddas wedi cyfrannu'n sylweddol at erydiad nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth. Gwnaethpwyd llawer o'r addasiadau hyn oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r dreftadaeth adeiledig, a diffyg ystyriaeth ohoni, a hefyd am fod defnyddiau adeiladu a ffitiadau anaddas ar gael ac yn cael eu hybu.

Mae'n bwysig fod ymwybyddiaeth o werth yr amgylchedd lleol, ac ansawdd y gofal ohoni, yn cynyddu, er mwyn sicrhau, fan lleiaf, fod penderfyniadau sy'n effeithio ar yr Ardal Gadwraeth yn gallu cael eu gwneud ar sail ddeallus a goleuedig.

Un o amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru yw 'diogelu'r amgylchedd hanesyddol....., gan gydnabod ei gyfraniad at fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig ac ansawdd bywyd, a'i bwysigrwydd fel adnodd ar gyfer y cenedlaethau a ddêl' (Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3, Gorffennaf 2010)



Egwyddorion

Cynyddu lefel yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)

Cynigion

Datblygu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu sy'n cofleidio egwyddorion gwarchod a gwella pwysig gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys Taflenni, poster, digwyddiadau, teledu, rhyngwryd, radio, teithiau cerdded, anerchiadau, ayb a'u hanelu at gynulleidfaoedd targed pwysig. Dylai hyn gynnwys cyswllt gydag ysgolion lleol i greu ymwybyddiaeth a "pherchnogaeth" o'r dirwedd a'r amgylchedd adeiledig ac i feithrin synnwyr o gyfrifoldeb ymhlith cenedlaethau'r dyfodol

Blaenoriaethau

Tra'i bod yn bwysig fod holl nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth yn cael eu gwella, mae angen rhoi sylw penodol i:

- Fanylion domestig – ffenestri, drysau, crogi llechi mewn rhesi sy'n gorgyffwrdd, nwyddau dŵr glaw, waliau ffin a jomiau
- Arwyddion, caeadau a chynlluniau goleuo masnachol
- Gwaith ar dir y cyhoedd – goleuadau, dodrefn, arwynebau stryd, arwyddion ayb
- Darparu esboniadau sensitif
- Cadw awrygylch y pentref



Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth.

Partneriaid

Pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith o reoli'r Ardal Gadwraeth ond yn enwedig:-

- Perchnogion eiddo a masnachwyr unigol
- Ymgymeryddion statudol
- Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- Cyngor Sir Penfro
- Mudiadau a chyrrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol



Rhaglen

Datblygu Strategaeth Gyfathrebu o fewn 12 mis, ac yna rhaglen weithredu raddedig.

Ar Waith

Datblygu perthnasau gweithio da gyda'r Cyngor Cymuned a grwpiau lleol, i ddatblygu mentrau ymwybyddiaeth newydd ac i ddatblygu mentrau sydd eisoes yn bodoli ymhellach.

10 DATBLYGIAD

Mae'n bwysig fod datblygiadau newydd yn parhau cymeriad yr Ardal Gadwraeth o ran maint, defnyddiau a manylion. Fe fydd ailddatblygu neu uwchraddio adeiladau mewn ffordd sensitif, i'w defnyddio fel cartrefi, fel busnes neu at ddefnydd arall, yn arwain at fwy o werth cyfalaf i'r perchennog ac fe fydd hyn, yn ei dro, yn annog buddsoddiad o'r tu allan a hyder yn yr ardal.

Dylai datblygiad da osgoi cynllun modern ansensitif a hefyd dynwarediad arwynebol nodweddion hanesyddol mewn adeiladau newydd (Building in Context - new development in historic areas CABE (2001))

Egwyddorion

- Sicrhau bod datblygiadau ac ailddatblygiadau newydd yn gwarchod ac yn gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth fel y nodir yn y Datganiad o Gymeriad a'r ddogfen Gynigion.

Polisiâu Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)
- Polisi 30 CDLI (Amwynder)

Cynigion

- Adnabod cyfleoedd datblygu yn unol â'r CDLI sydd ar y gweill
- Paratoi briffiadau datblygu/cynllun ar gyfer safleoedd ac adeiladau pwysig
- Gweithio gyda datblygwyr yn y cam cyn cyflwyno cais i sicrhau bod eu cynigion yn gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth
- Datblygu nodyn canllaw cyffredinol i ymgeiswyr
- Annog ceisiadau cynllunio / Adeilad Rhestredig llawn, manwl ar gyfer pob cynnig i ddatblygu ac ailddatblygu (gan gynnwys darluniau o'r strwythurau/ardaloedd gerllaw).
- Sicrhau y ceir ymgynghoriad eang ar bob cais i ddatblygu yn yr Ardal Gadwraeth

Blaenoriaethau

- Parhau i fodloni'r egwyddorion a nodwyd yn y dadansoddiad o ddiben, amcanion, strategaeth a themâu ar sail ymatebol a arweinir gan ddatblygiad.
- Helpu cyflwyno safleoedd potensial i'w harddu, gwella a datblygu.

Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth ond yn enwedig safleoedd / adeiladau potensial ar gyfer eu hailddatblygu/harddu o fewn yr Ardal Gadwraeth fel a ganlyn: -

- Y Colomendy
- Y Felin

- Odyn Galch (Park Farm)
- Tenby House
- Inglenook
- Lion House
- Pyllau pysgod Maenorbŷr a'r ardaloedd o'u cwmpas
- Ardal rhwng y maes parcio, y toiled a'r heol

Partneriaid/Datblygwyr

Datblygwyr, APCAP, Asiantaeth yr Amgylchedd, CSP, CCGC, Penseiri, Syrfewyr, Adeiladwyr, ayb.

Rhaglen

Rhagweithiol: paratoi briffiadau datblygu a chymorth gyda hwy

Ymatebol: i gynigion ymgeiswyr

Ar Waith

Y cyfan yn unol â:-

- CABE (2000) By Design - urban design in the Planning system: towards better practice
- CABE (2001) Building in Context - new development in Historic Areas
- CABE (2001) The Value of Urban Design
- English Heritage (1995) Development in Historic Environment
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (1996) Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion yn yr Awyr Agored
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (Rhifyn 3, Gorffennaf 2010) Polisi Cynllunio Cymru

11 RHEOLAETH

Os nad yw'r Ardal Gadwraeth yn cael ei gwarchod a'i gwella'n ddigonol, yna mae deddfwriaeth gynllunio'n rhoi lle i gyflwyno mesurau rheoli ychwanegol. Tra gobeithir y bydd pob un sy'n gysylltiedig â dyfodol yr Ardal Gadwraeth yn hybu'r gwaith o warchod a gwella ei nodweddion arbennig, mae'n bwysig fod yna weithdrefnau mewn lle i atal unrhyw gamau amhriodol gan y rheiny nad ydynt yn gwneud hynny.

Egwyddorion

- I atal datblygiadau a defnydd sy'n cael effaith annerbyniol ar archaeoleg, ffabrig hanesyddol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod datblygiadau / defnydd newydd yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.
- Atal datblygiad ble byddai'n niweidio neu'n dinistrio gwerth coed neu grwpiau o goed fel amwynder.
- Atal datblygiadau a defnydd a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd neu gydlynid y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol y mae'r Ardal Gadwraeth yn gorwedd o'i mewn.
- Atal datblygiadau sy'n niweidio cyd-destun ffisegol Ardal Gadwraeth Maenorbŷr a'i dyfodfeydd a'r golygfeydd fel y nodir yn y Datganiad o Gymeriad.
- Annog mesurau fyddai'n cynnal nodweddion o werth sydd eisoes yn bodoli ac yn eu hatal rhag diflannu.

Polisiau Pwysig

- Polisi 8 CDLI (Nodweddion Arbennig)
- Polisi 11 CDLI (Gwarchod Bioamrywiaeth)
- Polisi 29 CDLI (Dylunio Cynaliadwy)
- Polisi 30 CDLI (Amwynder)

Cynigion

- Pob cais i ddatblygu yn yr Ardal Gadwraeth yn cael ystyriaeth lawn gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y CDLI.
- Pob penderfyniad gan yr Awdurdod yn cael ei fonitro'n ofalus a, ble'n briodol, yn cael ei gorfodi
- Ble'n briodol, Hysbysiadau Atgyweirio/Gwaith Brys a Hysbysiadau Gorfodi yn cael eu cyflwyno o dan Ddeddf Cynllunio, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990
- Ystyried argymell rhestru adeiladau hanesyddol yn y fan a'r lle ble'n briodol
- Mae'r awdurdod lleol yn gallu defnyddio cyfarwyddiadau erthygl 4 i reoli addasiadau graddfa fach sy'n dod o dan 'hawliau datblygu a ganiateir' (e.e. addasu ffenestri, cael gwared ar nodweddion cwrtill, diogelu olion archeolegol claddedig ayb.) ac ystyried cyflwyno'r rhain.
- Ystyried diddymu Gorchmynion Cadw Coed, eu gwneud a'u hamrywio ble'n briodol

- Y gymuned leol i gael gwybod am gynigion sy'n effeithio ar yr Ardal Gadwraeth o fewn gweithdrefnau ymgynghori a gydnabyddir

Blaenoriaethau

Unrhyw fanylion sy'n cael effaith sylweddol ar gymeriad yr Ardal Gadwraeth yn enwedig ffenestri, drysau, arwyddion, dysglau lloeren/erialau a'u gosodiadau, nodweddion ffin a choed.

Lle

Yr Ardal Gadwraeth gyfan.

Partneriaid

APCAP, datblygwyr, perchnogion eiddo, a phawb sydd am wneud newidiadau i nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth.

Rhaglen

Cynigir bod yr Ardal Gadwraeth yn cael ei hadolygu i werthuso effeithiolrwydd y polisiau ddeuddeg mis ar ôl mabwysiadu'r Ddogfen Gynigion hon. Yna, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried yr adroddiad sy'n esbonio'r sefyllfa, ac yn argymhell p'un ai fod angen cyflwyno cyfarwyddiadau Erthygl 4 ai peidio.

12 ASTUDIAETH AC YMCHWIL

Mae'n bwysig fod pob penderfyniad sy'n effeithio ar yr Ardal Gadwraeth yn seiliedig ar wybodaeth gadarn o'i rhinweddau archeolegol, hanesyddol a phensaernïol, sy'n gysylltiedig ag adeiladau unigol a hefyd gosodiad, defnydd tir a hunaniaeth leol.

Egwyddorion


Mae'n bwysig fod y gwaith o warchod a gwella'r ardal yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'i nodweddion arbennig.

Cynigion

- Casglu a choladu'r holl adroddiadau ac ymchwil sy'n bodoli ar nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth a diweddarau'r gronfa ddata'n rheolaidd.
- Sicrhau bod y gronfa ddata hon ar gael i fwydo unrhyw feirniadaeth ynghylch gwaith yn yr Ardal Gadwraeth a diweddarau'r gronfa ddata'n rheolaidd.
- Datblygu archif ffotograffig o ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth, a'i chynnal.
- Comisiynu ymchwil pellach i nodweddion arbennig yr Ardal Gadwraeth a thechnegau hanesyddol a modern ar gyfer ei gwarchod a'i gwella.
- Monitro newidiadau yng nghymeriad yr Ardal Gadwraeth, gan arwain at adolygiad o'r Ddogfen Gynigion hon

Blaenoriaethau

- Ymchwil i mewn i dechnegau adeiladu hanesyddol lleol (e.e. mathau o ddefnyddiau adeiladu traddodiadol, a'u ffynhonnell, e.e. cerrig, briciau, llechi, teils, toi gwellt, clom, rendr calch a mortar, gwaith gof lleol ar gyfer gwaith haearn pensaernïol, ayb).
- Ymchwil i mewn i draddodiadau a chwedloniaeth leol
- Ymchwil i mewn i'r pyllau pysgod canoloesol a'r felin
- Ymchwil i mewn i systemau cae cynnar



Lle

Ar draws yr Ardal Gadwraeth a'i gosodiad.

Partneriaid

Archaeoleg Cambria, APCAP, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Rhaglen

Rhagweithiol: Monitro cymeriad yr Ardal Gadwraeth ac adolygu'r Ddogfen Gynigion hon o fewn 10 mlynedd.

Ymatebol: Parhaus.

13 FFIN YR ARDAL GADWRAETH

13.1 ARDALOEDD PELLENNIG SY'N BWYSIG I OSODIAD A CHYMERIAD YR ARDAL GADWRAETH.

Mae gosodiad tirwedd ac arfordirol Maenorbŷr o bwysigrwydd hanesyddol, archeolegol ac ecolegol neilltuol ac mae wedi'i chynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru (mae'r wybodaeth wedi ei chynnwys yn Natganiad o Gymeriad Maenorbŷr). Tra bod y Gofrestr i hun yn anstatudol, mae'n gofyn i APC ystyried effaith debygol datblygiadau ar dirweddau o ddiddordeb hanesyddol neilltuol a nodwyd. Ardal sydd o bwysigrwydd sylweddol yw'r darn o'r diwedd o amgylch yr Ardal Gadwraeth sy'n cynnwys coedwig Park Farm, y llain-gaeau canoloesol i'r gogledd o'r pentref, Mud Lane a'r pentiroedd arfordirol bob ochr i Draeth Maenorbŷr.

Mae'r map canlynol yn dangos yr ardaloedd pellennig sy'n bwysig i osodiad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

13.2 ADOLYGIAD O FFIN YR ARDAL GADWRAETH

O dan Adran 67 Deddf Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990, mae'n ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol adolygu Ardaloedd Cadwraeth o bryd i'w gilydd. Mae Gweithgor yr Ardal Gadwraeth wedi awgrymu ymestyn y ffin i gynnwys:-

Y pentref cyfan o The Croft i South Norton, gan gynnwys adeiladau yn Mud Lane, Old Drover's Road a'r tir rhwng Mud Lane a Skrinkle. Mae'r Grŵp hefyd wedi tanlinellu'r llain-gaeau i'r gogledd i'w cynnwys hefyd.

Fe fydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried yn fwy manwl fel proses ddeddfwriaethol ar wahân, ac fe fyddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Maenorbyr

Ardaloedd pellennig sy'n bwysig i leoliad yr Ardal Gadwraeth a'i chymeriad



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro

Maenorbyr Ardal Gadwraeth Dynodwyd 1997

Areas identified May 2004 (Proposals Document) for inclusion within Conservation Area


- A** Park Farm Wood including historically important route. Historic properties including South Norton on main northern approach to village.
- B** Well-preserved medieval strip fields systems on north side of village.
- C** Properties along mud lane including limekiln. Historically and architecturally important Hill Farm prominent in landscape; also coastal slopes and headland of Priest's Nose. Old Drover's route of historic significance.
- D** Prominent land to south-west of Park Farm including coastal slopes, Atlantic View and The Dak.

Additional areas identified by Conservation Area Working Group

- 1** Baldwins Moor/The Grange and adjacent fields.
- 2** Fields south of Hill Farm.
- 3** Skrinkle Farm.
- 4** Land/cliffs west of The Dak.

Graddfa

0 400 m



14 Y CAMAU NESAF

- Mae APCAP wedi mabwysiadu'r Ddogfen Gynigion fel Canllaw Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol. Fe fydd yn cefnogi polisiau'r CDLI ac yn ystyriaethau cynllunio o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth Maenorbŷr.
- Cynigir bod y cynigion a geir yn y ddogfen hon yn cael eu rheoli a'u monitro'n barhaus, a hynny gan weithgor a enwebir gan Gyngor y Dref, a swyddogion y Parc Cenedlaethol, a hynny ddwywaith y flwyddyn (i ddechrau, o leiaf) gydag adroddiadau ar gynnydd ar gael i'r cyhoedd.

15 RHAGLEN ARDAL GADWRAETH MAENORBŶR

Themâu (Offerynnau)	Partneriaid Potensial	Ar Waith	Corff Arweiniol	Amserlen				
				2011/2012	2012/2013	2013/2014	2014/2015	
Adnoddau Nawdd Cadwraeth – Grantiau Cadw	Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau	Cyswllt parhaus gyda Cadw, perchnogion eiddo a hyrwyddwyr prosiectau	APCAP					
Nawdd Cadwraeth – Grantiau'r Bartneriaeth Cynllun Tref Hanesyddol (APCAP)	APCAP, Cadw, CSP, WDA, BCC, perchnogion eiddo	Archwilio'r potensial ar gyfer y Bartneriaeth Cynllun Tref Hanesyddol	PCNPA/Cadw					
Nawdd sydd ddim yn Nawdd Cadwraeth	CSP, ymgymeryddion statudol, CCGC, WDA, BCC, perchnogion tir	Mynd at bartneriaid pwysig gyda'r nod o gytno ar gytundebau gweithio	APCAP					
Tir y Cyhoedd	CSP, Asiantaeth yr Amgylchedd, BT, Cwmnïau Gweithredu Telegyfathrebu, Western Power, Transco, Dŵr Cymru, Hyder	Ymateb i fentrau cyllidwyr allanol Mynd at fudiadau perthnasol gyda'r nod o gytno ar gytundebau gweithio	APCAP APCAP					
Rheoli Traffig	CSP, Cyngor Cymuned Maenorbyr, Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	Ymateb i fentrau mudiadau perthnasol Annog datblygiad Cynllun Rheoli Traffig (CSP)	APCAP PCNPA/PCC					
Prosiectau Cymunedol	Cyngor Cymuned Maenorbyr, grwpiau ac unigolion lleol, PLANED, CSP (UAC), PAVS	Mynd at fudiadau perthnasol gyda'r nod o gytno ar gytundebau gweithio Ymateb i fentrau mudiadau perthnasol Mynd at fudiadau perthnasol i helpu'r gymuned i warchod a gwella'r Ardal Gadwraeth	APCAP APCAP					
Ymwybyddiaeth	Perchnogion eiddo, masnachwyr, ymgymeryddion statudol, cyrff a mudiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol	Cymorth ymatebol i brosiectau cymunedol sy'n ymwneud â gwarchod adeiladau	APCAP					
Datblygiad	Datblygwyr	Datblygu strategaeth gyfathrebu raddol	APCAP APCAP					
Rheolaeth Astudiaeth ac Ymchwil	Datblygwyr, perchnogion eiddo Archaeoleg Cambria, Cadw, Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru, cymdeithasau hanes lleol Gweithgôr y Cyngor Cymuned ac APCAP	Paratoi briffiau datblygu yn raddol Ymatebol (ceisiadau / ymholiadau cynllunio / Adeiladau Rhestrddig) Adolygiad o'r Ardal Gadwraeth Astudiaeth ac ymchwil parhaus	APCAP APCAP					
Adolygiad o Ffin yr Ardal Gadwraeth	Y Cyhoedd	Rheoli a monitro'r cynigion yn parhaus Adolygiad o'r Ddogfen Gynigion Adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth	APCAP / Gweithgôr y Cyngor Cymuned APCAP APCAP					

16 TALFYRIADAU A DDEFNYDDIWYD

BT	BRITISH TELECOMMUNICATIONS
CABE	COMMISSION FOR ARCHITECTURE AND THE BUILT ENVIRONMENT
CCGC	CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU
CROW	DEDDF CEFN GWLAD A HAWLIAU TRAMWY 2000
UAC	CYNGOR SIR PENFRO (UNED ADFYWIO CYMUNEDOL))
DDA	DISABILITY DISCRIMINATION ACT (DDA) 1995
AA	ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD (CYMRU)
CDU	CYDGYNLLUN DATBLYGU UNEDOL AR GYFER SIR BENFRO
PAVS	CYMDEITHAS GWASANAETHAU GWIRFODDOL SIR BENFRO
CSP	CYNGOR SIR PENFRO
APCAP	AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO
PLANED	RHWYDWAITH GWEITHREDU LLEOL SIR BENFRO AR GYFER MENTER A DATBLYGU
yACASBF	YMGEISYDD ARDAL CADWRAETH ARBENNIG SIR BENFRO FOROL
SPAB	SOCIETY FOR THE PROTECTION OF ANCIENT BUILDINGS
SoDdGA	SAFLE O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG
LICC	LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
RSPB	ROYAL SOCIETY FOR THE PROTECTION OF BIRDS

ALLWEDD I FAP NODWEDDION ARDAL GADWRAETH MAENORBŶR**ADEILADAU TIRNOD – cylch coch**

1. Castell Maenorbŷr
2. Eglwys Sant Iago

ADEILADAU O BWYSIGRWYDD LLEOL - cylch brown, llythrennau bach

- a. Devil's Quoit (cynhanes)
- b. Y Colomendy (canoloesol)
- c. Melin Maenorbŷr (hanesyddol/pensaerniol)
- d. Castell Maenorbŷr (canoloesol)
- e. Eglwys Sant Iago (canoloesol)
- f. Churchill Cottage yn cynnwys olion (canoloesol)
- g. Shute Cottage (pensaerniol/hanesyddol)
- h. Odyn Galch yn Park Farm (diwydiant lleol)
- i. Olion yr Hen Reithordy (pensaerniol/hanesyddol)
- j. Bier House a'r Pound (pensaerniol/hanesyddol)
- k. Morfa Terrace yn cynnwys caedleoedd cefn o gerrig (hanesyddol)
- l. Fernley Lodge (hanesyddol)
- m. Warlow's Cottage (pensaerniol/hanesyddol)
- n. May Cottage (hanesyddol)
- o. Castle Inn (hanesyddol, cymdeithasol)
- p. Ashley House (yn cynnwys coach house/hanesyddol/cymdeithasol)
- q. Parish Hall (hanesyddol, pensaerniol, cymdeithasol)
- r. Pound Walls (hanesyddol)
- s. Vigilant House (yr hen Sea View) a Curlew Cottage (pensaerniol/hanesyddol)
- t. Tŷ ac adeiladau allanol Park Farm (hanesyddol)
- u. Cofeb Rhyfel
- v. Castle mead (hanesyddol)
- vi. Long Park (pensaerniol)

NODWEDDION LLEOL – cylch porffor, geiriau gwyn

1. Waliau Calchfaen
2. Pyllau Pysgod Canoloesol
3. Sticil o garreg
4. Croes Bregethu Ganoloesol
5. Pwmp o haearn bwrw
6. Jomiau carreg Fictoraidd, Morfa Terrace
7. Brigiad calchfaen ger Curlew Cottage
8. Crogi llechi, Vigilant House
9. Jomiau carreg traddodiadol
10. Wal gynnal garreg saethben
11. Wal garreg gyda babalwbis
12. Clawdd traddodiadol
13. Tŵr yn Tarr Farm
14. Saeth dd r (Shute cottage)

GOLYGFYDD PWYSIG – saeth ddu, geiriau gwyn

1. Golygfa o'r maes parcio at y môr a'r morlin yn y pellter gan gynnwys Penrhyn Ystagwbwll
2. Golygfeydd o'r llwybr cyhoeddus i'r gorllewin tuag at y traeth, pentiroedd arfordirol, tua'r gogledd tuag at waliau'r castell a'r dwyrain tuag at ganol y pentref.
3. Golygfeydd o ardal ddwyreiniol iard yr eglwys tuag at y pentref. Castlemead a Neuadd y Plwyf yn amlwg.
4. Golygfa banoramig o iard yr eglwys tuag at y môr, y castell, Park Farm, Pembroke Road a chanol y pentref ymhlith coed
5. Golygfa banoramig o'r llwybr cyhoeddus dros y castell tuag at golomendy Park Farm, y gwaith carthffosiaeth, i'r gogledd tuag at Boat Cottage a Vigilant House ac i'r dwyrain tuag at y tai ar hyd Mud Lane.
6. Golygfa banoramig o'r pentir dros y pentref gan gynnwys y castell, y felin a'r colomendy
7. Golygfa o'r traeth a'r pentiroedd bob ochr
8. Golygfa o'r môr o dir y castell a chipolwg o'r eglwys trwy'r coed

9. Golygfa o Park Farm a'r caeau o amgylch
10. Golygfa dda o'r eglwys a'r fynwent yn erbyn y llechwedd
11. Golygfa dda o'r castell, pyllau pysgod a thir fferm gyda chefnidir arfordirol

ALLWEDD CIPOLWIG O WRTHYCH/TIRNOD/MAN DIDDORDEB – saeth las, cylch glas, geiriau gwyn

1. Sawl cipolwg trwy goed pin tuag at yr eglwys a'r pentref
2. Cipolwg o Eglwys Sant Iago a'r môr
3. Cipolwg o doeon y pentref gan gynnwys Glyder a Lion House
4. Cipolwg o'r pentref ar draws y pyllau pysgod yn dangos Long Park, Tarr Farm, Awelon, Vigilant House a'r tai gerllaw
5. Cipolwg o Awelon a Vigilant House
6. Cipolwg o Shute Cottage

BLAENAU/CWRTILAU PWYSIG - cylch oren, geiriau gwyn

1. Waliau o flaen Gable Cottages
2. Waliau o flaen Pound Cottage
3. Waliau/rheiliau o flaen Manorbier Villa, Glenside a Tenby House
4. Waliau o flaen Fernley Lodge
5. Waliau o flaen Warlow's Cottage
6. Waliau o flaen Devonian a Balmaha
7. Waliau o flaen Inglenook
8. Waliau a rheiliau o flaen Glyder
9. Waliau o flaen May Cottage
10. Waliau gardd yn Milton Cottage, Picton Cottage a Carew Cottage
11. Waliau gardd Ashley House a hen flaen y siop
12. Talcen Chives Restaurant
13. Cwrttil Neuadd y Plwyf a Cross House
14. Cwrttil Castle Corner House
15. Cwrttil waliau Glenfield
16. Cwrttil Awelon

GOFODAU AGORED PWYSIG - geiriau du

- i. Traeth Maenorbŷr a'r pentir bob ochr gan gynnwys y maes parcio a'r llethrau prysglwynog i'r de..
- ii. Gosodiad Castell Maenorbŷr, y felin, y pyllau pysgod a'r colomendy.
- iii. Gosodiad Park Farm gan gynnwys yr olyn galch.
- iv. Gosodiad Eglwys Sant Iago gan gynnwys y fynwent ganoloesol, y fynwent newydd, Shute cottage, padog i'r de o Castle Mead, gardd Castle Mead ac olion yr Hen Reithordy. Cae i'r dwyrain o rodfannau'r Casell
- v. Tir i'r gorllewin o Pembroke Road. Porfa i'r gorllewin o Awelon a padog i'r gorllewin o Long Park
- vi. Dolydd i'r gorllewin o Morfa Terrace
- vii. Ymyl yr heol i'r dwyrain o Warlow's Cottage
- viii. Gerddi Balmaha a Devonian
- ix. Ardal Hamdden
- x. Ardal balmantog ar hyd y dreif i Tarr Farm
- xi. Gardd Goffa
- xii. Ymyl a chlawdd ar dro'r heol
- xiii. Gardd Ashley House

COED SY'N BWYSIG I OSODIAD YR ARDAL GADWRAETH - geiriau gwyrdd

- a. Sycamorwydd, pinwydd a phoplys ar hyd yr heol ar ochr ogleddol y maes parcio.
- b. Perthlys o goed ar ochr ddwyreiniol y maes parcio (sycamorwydd a'r ddraenen wen ac onn)
- c. Grŵp o goed onn gyda phrysglwyni'r ddraenen ddu.
- d. Coetir onn gyda'r ddraenen wen, y ddraenen ddu, helyg a sycamorwydd.
- e. Y ddraenen ddu a phrysglwyni'r ddraenen wen gydag onn a sycamorwydd ar ochr ddeheuol y cwm.
- f. Sycamorwydd yng nghornel de ddwyreiniol iard yr eglwys
- g. Grŵp o goed pin, sbriws, chiprys ar hyd y llwybr cerdded
- h. Llain o goed poplys, onn a helyg
- i. Grŵp o goed gwern ar hyd y llwybr i'r gwaith d r
- j. Onn/llwyf aeddfed gyda phrysglwyni helyg ar lawr y dyffryn.
- k. Grŵp o goed sycamorwydd, onn a ffawydd gyda phrysglwyni'r ddraenen ddu a'r ddraenen wen ar y llethr is.
- l. Perthlys o sycamorwydd bob ochr i fynedfa'r castell.

- m. Rhodfa o sycamorwydd ac onn bob ochr i fynedfa'r castell
- n. Llain o sycamorwydd ar ochr ogledd-ddwyreiniol tir y castell gyda phrysglwyni'r ddraenen wen a'r ddraenen ddu
- o. Sycamorwydd ar ymylon ochr ddeheuol tir y castell ar hyd yr heol
- p. Sycamorwydd a phisgwydd wrth fynedfa Morfa Terrace
- q. Rhes o gastanwydd, ffawydd a sycamorwydd ar ochr ddwyreiniol y lôn i Morfa Terrace
- r. Grŵp o bisgwydd ar ffin ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth
- s. Sycamorwydd a'r ddraenen wen ar ymyl y cae gyda Morfa Terrace ac wrth gefn Morfa Terrace
- t. Rhes o sycamorwydd i'r gogledd o Warlow's Meadow.
- u. Rhes o sycamorwydd, onn a llwyfen lydanddail o flaen Fernley Lodge
- v. Sycamorwydd, pisgwydd a llwyfen fach yng ngardd Glan-y-Mor
- w. Tair sycamorwydden yng ngardd May Cottage
- x. Poplys gwyn i'r dwyrain o borthdy'r castell
- y. Grŵp o sycamorwydd i'r gogledd ddwyrain o'r castell
- z. Sycamorwydd, onn a deri bytholwyrdd ar ochr ogleddol gardd Castlemead ar hyd yr heol
- aa. Sycamorwydden yng ngardd Ashley House
- bb. Ardal bicnic gydag onn, sycamorwydd, cerdinen a chastanwydden

ALLWEDD I FAP CYFLEOEDD ARDAL GADWRAETH MAENORBŶR

GWELLA FFINIAU / CWRNILAU BLAENGWRT

1. Carew Cottage
2. Waliau gardd gefn Ash Cottage a waliau cwrtil gyferbyn â "The Gate"
3. Rhif 25 Pembroke Road
4. Lion House

GWELLA ADEILADAU

1. Colomendy Maenorbŷr
2. Melin Maenorbŷr
3. Odyn Galch
4. Tenby House
5. Inglenook
6. Lion House

CYFLE I WELLA'R ARDAL

1. Maes Parcio
2. Pyllau Pysgod Maenorbŷr a'r ardal o amgylch yn cynnwys y colomendy, y felin a'r gwaith carthffosiaeth
3. Gwaith trin carthffosiaeth
4. Gwaith dŵr
5. Hen doiledau cyhoeddus
6. Arhosfa bysiau
7. Y tir i'r gorllewin o'r Castell

CYFLE I WELLA TIR Y CYHOEDD

1. Polion a gwifrau'n croesi stryd y pentref
2. Polion a gwifrau tu allan i Inglenook
3. Polion a gwifrau i'r dwyrain o Neuadd y Plwyf
4. Polion a gwifrau tu allan i Waliau'r Pound
5. Polion a gwifrau i'r gorllewin o Awelon
6. Polion a gwifrau rhwng y felin a'r colomendy
7. Polion a gwifrau ar ochr ogleddol yr heol sy'n ymylu ar yr ardd goffa
8. Polion a gwifrau ar hyd Church Road
9. Gwaith Dŵr
10. Gwaith Carthffosiaeth

CYFLE I ROI SYLW I FATERION TRAFFIG

1. Mynedfa ddwyreiniol yr Ardal Gadwraeth (cyflymder)
2. System unffordd o amgylch Neuadd y pentref (llif, parcio)
3. Ger Castle Mead (cyflymder)